EPT-07-02 (p 2)

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Ebrill 2002 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 4.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2001-02

### Pwrpas

1. Gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar adroddiad blynyddol ar gyfer 2001-02.

### Cefndir

2. Mae RhS 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl dros gyfnodau o 12 mis o leiaf, ac i adrodd i'r cyfarfod llawn o bryd i'w gilydd ar gynnydd. Mae Panel y Cadeiryddion wedi cytuno y bydd adroddiadau cynnydd a blaenraglenni gwaith blynyddol y pwyllgorau pwnc yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod llawn ym mis Mai, ond na fydd dadl arnynt.

### Adroddiad Blynyddol

3. Atodir **adroddiad drafft** yn **Atodiad A**. Mae'n rhoi crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor rhwng Mai 2001 ac Ebrill 2002. Ceir manylion pellach mewn ôl-nodion ac yn y dogfennau ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Atodir adroddiad drafft sy'n sôn am weithgareddau'r **Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio** yn **Atodiad B**.

### Argymhelliad

4. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar yr adroddiadau blynyddol a amgaeir.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Ebrill 2002

**ATODIAD A**

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**ADRODDIAD [DDRAFFT] I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9:**

**MIS MAI 2001 TAN FIS EBRILL 2002**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gweithgareddau o fis Mai 2001 tan fis Ebrill 2002. Gellir gweld copïau o'n hadroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau ein cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

## 2. Aelodau

2.1 Ar hyn o bryd aelodau'r Pwyllgor yw: Richard Edwards (Cadeirydd), Eleanor Burnham, David Davies, Janet Davies, Sue Essex (y Gweinidog dros yr Amgylchedd), Brian Hancock, Val Lloyd, Tom Middlehurst, Karen Sinclair a Phil Williams. Newidiodd aelodaeth y Pwyllgor sawl gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw.

## 3. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Mae ein cylch gwaith yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex, ac y mae'n cynnwys: diogelu'r amgylchedd; materion cefn gwlad; cynllunio; trafnidiaeth; datblygu cynaliadwy; a henebion ac adeiladau rhestredig a hanesyddol.

3.2 Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9.

## 4. Blaenoriaethau

4.1 Rydym wedi ceisio datblygu dull strategol o fwrw ati â'n gwaith, gan ganolbwyntio ar ddwy flaenoriaeth allweddol yn ystod y cyfnod dan sylw: yr ymchwiliad annibynnol i safle claddu gwastraff Nantygwyddon; a'r adolygiad polisi o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

4.2 Rydym wedi ymrwymo i'w gwneud yn haws i bobl Cymru weld ein trafodion. I'r diben hwn, cynhaliwyd cyfarfod yn Aberhonddu yn ystod tymor yr haf, a dau gyfarfod yn Rhondda yn ystod tymor yr hydref fel rhan o ymchwiliad Nantygwyddon, a lansiwyd yr adroddiad ar ein hymgynghoriad trafnidiaeth gyhoeddus yn yr orsaf bysiau a threnau yng Nghaerffili.

## 5. Ein Gwaith a'r Hyn a Gyflawnwyd Hyd yn Hyn

5.1 Cynhaliwyd deunaw cyfarfod yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae’r prif bethau a gyflawnwyd fel a ganlyn:

**Ymchwiliad Nantygwyddon**

5.2 Yn dilyn y ffaith bod trigolion lleol wedi mynegi pryderon ynghylch yr effaith yr oedd safle claddu gwastraff Nantygwyddon yn y Gelli, Rhondda yn ei chael ar eu hiechyd a’u hamgylchedd, penderfynodd y Cynulliad Cenedlaethol y dylid cynnal ymchwiliad annibynnol i’r modd y cafodd y safle ei sefydlu, ei reoli a’i reoleiddio.

5.3 Adroddodd ein hymchwilydd annibynnol i ni ym mis Rhagfyr 2001, ac fe adroddom ninnau i’r cyfarfod llawn ym mis Chwefror 2002. Roedd rhai argymhellion yn benodol i safle claddu gwastraff Nantygwyddon ac eraill yn ymwneud â gwersi cyffredinol ar gyfer dyfodol y gwaith o reoli gwastraff yng Nghymru, gan gynnwys yr angen i fynd i’r afael â’r pryderon ynghylch iechyd sy’n gysylltiedig â chyfleusterau gwaredu gwastraff. Cymeradwyodd y cyfarfod llawn ein hargymhellion, a bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn adrodd yn ôl ar hynt y gwaith cyn toriad yr haf. Mae’r safle bellach wedi’i gau.

5.4 Ein hymchwiliad oedd y cyntaf o’i fath gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan ddefnyddio ymchwilydd annibynnol i gwrdd â thrigolion lleol er mwyn gwneud gwaith casglu a dadansoddi tystiolaeth fanwl ar ran pwyllgor. Mae hyn wedi gosod cynsail ar gyfer gwaith y pwyllgorau pwnc eraill. Byddwn nawr yn adolygu’r broses er mwyn nodi pa wersi y gellid eu dysgu ar gyfer unrhyw ymchwiliadau a gynhelir yn y dyfodol.

***Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7 (i))***

- **Yr adolygiad polisi o drafnidiaeth gyhoeddus**

5.5 Cynhaliwyd adolygiad gennym o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru er mwyn nodi pa gamau yr oedd angen eu cymryd i hwyluso’r gwaith o wella ac integreiddio’r gwasanaethau. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ymgynghori ym mis Gorffennaf, a chyflwynwyd ein hargymhellion terfynol i’r cyfarfod llawn ym mis Rhagfyr 2001. Diffinwyd gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, gan argymell cynyddu’r buddsoddiad yn y gwasanaethau, newid strwythurol a mwy o bwerau i’r Cynulliad Cenedlaethol.

5.6 Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bob un o’n hargymhellion, ac maent bellach yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn cyflwyno rhagor o gynigion i’r cyfarfod llawn yn ystod tymor yr haf ar gyfer newid strwythurol, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnwys Mesur Cludiant i Deithwyr ei gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan.

5.7 Yn ogystal, cyflwynwyd ein hargymhellion i Bwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU

(pwyllgor pwnc cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol i wneud hynny), a byddant yn mynd i'r afael â'n galwad am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol fel rhan o'u hymchwiliad trafnidiaeth.

5.8 Yn gysylltiedig â'n hadolygiad o drafnidiaeth gyhoeddus, craffwyd ar berfformiad cwmnïau trenau sy'n darparu gwasanaethau i deithwyr yng Nghymru, a chafwyd cyfarfod ag Awdurdod Strategol y Rheilffyrdd er mwyn trafod eu cynllun newydd ar gyfer rheilffyrdd Prydain.

**Cyfrannu at ddatblygu polisi**

5.9 Yn ychwanegol at ein hadolygiad ein hunain, cyfrannwyd hefyd at adolygiad polisi'r Pwyllgor Diwylliant o'r iaith Gymraeg, yn ogystal â datblygiadau polisi allweddol y mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yn gweithio arnynt.

***Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))***

5.10 Craffwyd yn rheolaidd ar waith y Gweinidog dros yr Amgylchedd trwy ei Hadroddiad.

***Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))***

5.11 Buom yn craffu ar berfformiad y cyrff canlynol yn erbyn eu targedau blynyddol: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parciau Cenedlaethol Cymru (Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri), a Cadw: Welsh Historic Monuments. Cyfrannwyd hefyd at adolygiadau pum mlynedd Cadw (y cylch gorchwyl) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (yr adroddiad terfynol drafft), ac at yr Adolygiad ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr o Bolisi a Rheolaeth Ariannol Asiantaeth yr Amgylchedd (cam 1).

***Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))***

5.12 Adroddwyd i'r cyfarfod llawn ar Orchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001, wedi'i gyfeirio atom. Craffwyd ar amryw o gynigion drafft i roi darpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar waith, gan gynnwys diwygio'r rheoliadau cyfredol. Hefyd, cynghorwyd ni ynghylch hynt darnau eraill o is-ddeddfwriaeth yn ystod amryw gamau yn eu datblygiad.

***Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))***

5.13 Nodwyd ein blaenoriaethau o ran y gyllideb yn ystod tymor yr haf, a rhoddwyd sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref.

***Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8 (iii))***

5.14 Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion atom yn ystod y cyfnod dan sylw.

***Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))***

5.15 Ymgynghorwyd ag aelodau’r Pwyllgor a enwebwyd i ystyried penodiadau cyhoeddus ar nifer o benodiadau i gyrff cyhoeddus yn ystod y cyfnod dan sylw.

**6. Blaenraglen**

6.1 Gan edrych tua’r dyfodol, amgaeir ein rhaglen waith strategol ar gyfer 2002-03 a’n rhaglen waith fanwl ar gyfer y cyfnod o fis Mai tan fis Gorffennaf 2002.

**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

**Mis Mai 2002**

**ATODIAD B**

**PWYLLGOR PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

**ADRODDIAD [DDRAFFT] I’R SESIWN LAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9:**

**MAI 2001 HYD EBRILL 2002**

**1 Cyflwyniad**

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau’r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio (PDC) o Fai 2001 hyd Ebrill 2002.

**2 Aelodaeth**

2.1 Caiff bob PDC ei ethol o’r newydd ar gyfer pob apêl neu gais (neu grp o apelau/ceisiadau). Mae’r aelodau’r cael eu dethol o’r Panel Penderfyniadau Cynllunio sy’n cynnwys aelodau o

Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth sydd wedi cael eu hyfforddi ar gyfer y diben.

**3 Cylch Gorchwyl a Chyfrifoldebau**

3.1 Mae cyfrifoldebau PDC wedi'u gosod allan yn RhS 35.

**4 Cyfarfodydd**

4.1 Ystyriwyd yr achosion canlynol yn ystod cyfnod yr adroddiad:

**PDC 2001/2**

- Cais gan yr Anglesey Boat Company Ltd ar gyfer gwaith adeiladu arfaethedig, sef marina ac adeilad cyfleusterau, maes parcio a storfa gychod ym Mhenrhyn Safnas, Biwmares, Ynys Môn. **Ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad, gofynnwyd am wybodaeth bellach**

- Apêl gynllunio gan Mrs R. E. Davies ar gyfer cynllun arfaethedig i greu fflat llawr gwaelod yn Manor House, Vine Square, Llanfyllin, Powys. **Gwrthodwyd caniatâd**

- ACHOS CYSYLLTIEDIG: Apêl caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer addasiadau mewnol arfaethedig i greu dwy fflat ac oriel gelf, creu ffenestr newydd ac addasu hen ddrws allanol yn Manor House, Vine Square, Llanfyllin. Mae'r achos hwn yn gysylltiedig â'r apêl gynllunio gan Mrs R.E. Davies ac fe'i hystyrir hefyd gan y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio. **Gwrthodwyd caniatâd**

**PDC 2001/3**

- Cais gan Mr S. G. Greenow i ailadeiladu hen annedd a sgubor gan ymgorffori rhan o'r adfeilion yng Nghae Marchog, Llanigon, Y Gelli Gandryll, Powys. **Caniatawyd, gydag amodau**

- Cais gan Mr a Mrs Brown i newid y defnydd o hen ffermdy a'i addasu i ffurfio dwy uned wyliau hunan-arlwy yn Nhrewyn, Maenaddwyn, Llanerchymedd, Ynys Môn. **Gwrthodwyd caniatâd**

**PDC 2001/4**

- Cais wedi'i alw i mewn gan Marks and Spencer Plc ar gyfer estyniad arfaethedig i siop

bresennol Marks and Spencer ar dir i'r gorllewin o siop Tesco, Croes Cwrlwys, Trelái, Caerdydd. **Gohiriwyd y penderfyniad.** *Yn sgil adroddiadau yn y wasg ar ddyddiad y cyfarfod yngln a chau siop Marks and Spencer yn 82 Heol y Frenhines, Caerdydd, (yr hen siop Littlewoods), penderfynodd y Pwyllgor na ddylid gwneud penderfyniad nes bod y partïon wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar oblygiadau cau'r siop ar y cais.* ***(Gweler PDC 2001/8)***

- Apêl cynllunio gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Cymunedol Caerdydd am ganiatâd cynllunio bras ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, Park Road, Caerdydd gan gynnwys ei ddefnyddio fel ysbyty ac at ddibenion preswyl, hamdden, cymunedol a man-werthu gyda chaeau chwarae. **Caniatawyd, gydag amodau**

**PDC 2001/5**

- Apêl cynllunio gan National Windpower Limited ar gyfer cynllun i ddatblygu fferm wynt gyda 17 generadur tyrbin gwynt, traciau mynediad, is-orsaf ac offer atodol ar dir yn Jordanston, Abergwaun, Sir Benfro. **Gwrthodwyd caniatâd**

- Apêl cynllunio gan Mr P Davies, Eurogate Project Limited, ar gyfer cynllun i ddatblygu aneddiad pentref y mileniwm newydd ym Mrynglas, Llansanffraid Gwynllwg, Casnewydd. **Gwrthodwyd caniatâd**

- Apêl cynllunio ac apêl adeilad rhestredig gan BT Cellnet Limited ar gyfer cynllun i osod cabanau offer telathrebu gydag erialau ar dir yn Empire House, 54-57 Sgwâr Mount Stuart, Butetown, Caerdydd. **Gwrthodwyd caniatâd**

**PDC 2001/6**

- Cais wedi'i alw i mewn gan Mr a Mrs S George ar gyfer cynllun i drosi sgubor ac ailgodi adfeilion hen anheddfa a dymchwel adeiladau wedi dadfeilio yn Enfield, Portfield Gate, Hwlffordd. **Caniatawyd, gydag amodau**

**PDC 2001/7**

- Cais wedi ei alw i mewn gan Mr D.J. a Mrs M.D. Price ar gyfer codi annedd i weithwyr amaethyddol yn Nyfadfa Isaf, Gwynfe, Llangadog. **Gwrthodwyd caniatâd**

- Cais wedi ei alw i mewn ac apêl adran 174 gan Miss S Williams a Mr O Isaac i

adnewyddu hen ffermdy i'w droi'n annedd yn Thornhill, Landyfan, Rhydaman. **Gwrthodwyd caniatâd – cadwyd at egwyddor y nodyn gorfodaeth**

- Apêl cynllunio gan Carillion Development i ddatblygu 174 o unedau o fflatiau preswyl dwysedd uchel mewn tri bloc yn amrywio o 4-15 llawr (gan gynnwys parcio tanddaearol) yn Schooner Way, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd. **Caniatawyd, gydag amodau**

**PDC 2001/8 (Cynhaliwyd y cyfarfod yn sesiwn 2002)**

- **(Gweler PDC 2001/4)** Cais wedi'i alw i mewn gan Marks and Spencer plc ar gyfer estyniad arfaethedig i siop bresennol Marks and Spencer ar dir i'r gorllewin o siop Tesco, Croes Cwrlwys, Trelái, Caerdydd. **Caniatawyd ar yr amod bod cytundeb cyflawn gyda'r Awdurdod Priffordd perthnasol yn cael ei gyflwyno ar gyfer gwelliannau i'r briffordd o ran mynediad i'r safle**

- Apêl cynllunio gan Ddr Cymru ar gyfer estyniad ac addasiadau arfaethedig i Waith Trin Dwr Gwastraff Llanbedr, Llanbedr, Harlech. **Caniatawyd, gydag amodau**

**PDC 2002/2**

- Cais gan Awdurdod Datblygu Cymru am ddatblygiad diwydiannol a busnes arfaethedig ar dir i'r gogledd-ddwyrain o Heol Shotwick, Parth Datblygu Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint. **Gwrthodwyd caniatâd**

**PDC 2002/3**

- Cais gan Castle Cement Ltd am res o odynau newydd a gweithfeydd cysylltiedig, storfa galchfaen, adeiladau storio tanwydd, ail-broffilio hen safle gwastraff trwyddedig, a gweithfeydd atodol yng Ngweithfeydd Sment Padeswood, Padeswood, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. **Caniatawyd, gydag amodau**

**Panel Penderfyniadau Cynllunio**

**Mai 2002**